

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, E. Goodjohn, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, B. Loveluck-Edwards ac N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) ac I. Buckley.

68 PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd E. Goodjohn yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

69 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

70 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.

71 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

72 CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL –

I nodi cyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn dilyn Etholiad Llywodraeth Leol 2022, rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol gyflwyniad PowerPoint i roi gwybod i'r aelodau am y materion canlynol o fewn cyd-destun y pwyllgor craffu hwn:

- Rhan allweddol o weledigaeth y Cyngor ar gyfer Bro Morgannwg oedd creu 'Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair'. Roedd yn bwysig meddwl am weledigaeth y Fro o safbwynt y canlyniadau lleol yr oedd hi am iddynt gael eu cyflawni yn y Fro –
 - Bro Iach ac Actif.
 - Bro Gynhwysol a Diogel.
 - Bro Lewyrchus a Chyfrifol yn Amgylcheddol.
 - Bro Uchelgeisiol a Bywiog yn Ddiwylliannol.
- Lluniodd y canlyniadau uchod yn eu tro yr amcanion a osododd y Cyngor ei hun ac roedd y rhain i gyd yn gysylltiedig â chyfraniad y Cyngor at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gyflwynwyd yn 2015 a'r saith Nod Lles cyd-gysylltiedig ar gyfer Cymru.
- Arweiniodd hyn yn ei dro y ffordd y gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor benderfyniadau a chraffu arnynt h.y. trwy ddefnyddio'r 'Pum Ffordd o Weithio' fel lens yr oedd Aelodau Craffu yn ystyried y gwahanol bynciau a ddygwyd o'u blaenau drwyddo; h.y.:
 - Edrych ar yr atebion mwy hirdymor a dyrannu adnoddau i broblemau ac i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion tymor hwy tra'n cydbwysu'r rhain â gofynion tymor byrrach.
 - Ceisio ymyrryd / atal yn gynnar er mwyn atal problemau rhag digwydd eto yn y dyfodol.
 - Defnyddio dull integredig.
 - Cydweithio a chymryd camau ar y cyd â chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn helpu cymunedau lleol a chyflawni amcanion lles.
 - Pwysigrwydd cynnwys gwahanol bersonau amrywiol, ac ati sydd â budd yn y penderfyniadau yr oedd y Cyngor yn eu gwneud er mwyn sicrhau bod eu llais wedi'i glywed ac y gallant gyfrannu at gyflawni'r nodau lles hynny hefyd.
- Er mwyn cyflawni ei bedwar Amcan Lles, roedd gan y Cyngor Gynllun Corfforaethol pum mlynedd (y diweddaraf yw ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2020-2025). Roedd yr Amcanion Lles yn cynnwys:
 - Gweithio gyda a thros ein Cymunedau h.y., cynnwys trigolion, darparu gwasanaethau da i gwsmeriaid, hyrwyddo'r Gymraeg, ac ati.
 - Cefnogi Dysgu, Cyflogaeth a Thwf Economaidd Cynaliadwy h.y., sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu mewn amgylcheddau modern, gan roi cymorth, cyngor a chyfleoedd i bobl a busnesau er mwyn eu helpu gyda swyddi, arian a sgiliau sydd eu hangen arnynt ac eisiau i bobl allu gwirfoddoli mewn gwahanol gyfleoedd.
 - Cefnogi Pobl yn y Cartref ac yn y Gymuned, h.y., sicrhau bod gan bobl ffordd iach ac actif o fyw, annog cerdded, beicio a dulliau eraill o deithio llesol a rhoi cyfle i bobl fwynhau hamdden, y celfyddydau a diwylliant a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, yn ogystal â chadw pobl yn ddiogel gartref ac yn eu cymuned gyda mynediad at dai o ansawdd da.
 - Parchu, Gwella a Mwynhau Ein Hamgylchedd h.y. cynnal cyfleusterau lleol fel parciau ac ardaloedd chwarae a lleihau llygredd a llifogydd, yn ogystal â lleihau gwastraff a gostwng allyriadau carbon.
- Er mwyn rhoi golwg flynyddol i'r cyhoedd a'r Aelodau Craffu ar sut roedd y Cyngor yn dod yn ei flaen, roedd y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn cynnwys

No.

cyfres o ymrwymiadau ar gyfer blwyddyn 2022/23 ac yn benodol 6 thema (h.y. Prosiect Zero, Capasiti Cymunedol, Caledi, ac ati).

- O ran cylch gwaith y Pwyllgor hwn, roedd yn goruchwyllo'n gyffredinol y gwaith o gyflawni gweledigaeth y Cyngor a nifer o wasanaethau penodol fel Polisi a Pherfformiad Corfforaethol, Cyfathrebu, Cysylltiadau Cwsmeriaid, Cyllid, TGCh, Eiddo, Cyfreithiol, Gwasanaethau Democrataidd, Adnoddau Dynol, Tir ac Eiddo Dros Ben, Cynlluniau Cyfalaf, a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Yn rhan o amlinellu'r Uwch Dîm y tu ôl i'r swyddogaethau, cyflwynodd y Swyddog Monitro / Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Gweithwyr eu hunain i'r Pwyllgor a nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Yn olaf, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol wrth y Pwyllgor i roi gwybod i'r Gwasanaethau Democrataidd a oedd cwestiynau penodol neu dechnegol cyn cyfarfod er mwyn iddynt gael eu hymchwilio ac a oedd gofyn i swyddogion penodol neu allweddol fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor er mwyn mynd i'r afael â'u cwestiynau.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd y sylwadau a'r cwestiynau dilynol eu codi gan y Pwyllgor:

- Soniodd y Cynghorydd Franks am nifer o faterion ynglŷn â meysydd fel dim digon o gymorth gan y Cyngor o ran teithio llesol, cynnal a chadw llwybrau troed, yn ogystal â chymorth i ysgolion a phlant ysgol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'n sicrhau y byddai'r Cynghorydd a'r Pwyllgor cyfan yn derbyn yr adroddiad ar Berfformiad Chwarter 3 a oedd yn manylu ar y camau a'r ymrwymiadau a wnaed o ran meysydd fel teithio llesol, lliniaru llifogydd, ac ati, ac y byddai adroddiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn rheolaidd. Roedd y Cynghorydd Loveluck-Edwards hefyd am ychwanegu nad oedd wedi gweld, yn ei rôl hi o fewn undeb llafur addysg, unrhyw broblemau yn ymwneud â diffyg cymorth gan Gyngor Bro Morgannwg i ysgolion neu ddisgyblion.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at yr angen i sicrhau, wrth edrych ar amcanion y Cyngor, yr edrychir ar y 'darlun ehangach' neu effaith y rhain yn gynharach, gan grybwyll diffyg goleuadau ar lwybr cyhoeddus yn ei ward, gyda goleuadau ychwanegol wedi'u gwrthod gan y Cyngor oherwydd y newid yn yr hinsawdd sy'n anwybyddu'r buddion y gallai llwybr troed wedi'i oleuo eu creu ar gyfer teithio llesol.
- Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau i siarad a chyfeiriodd at ei gylch gwaith a'i atebolrwydd at y Pwyllgor Craffu hwn (ac eraill) a phwysigrwydd gallu'r aelodau i gysylltu ag ef yn uniongyrchol gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon oedd ganddynt. Cyfeiriodd hefyd at y corff mawr o waith a wnaed gan y Cyngor yn ystod y Pandemig a dywedodd fod y gwaith hwnnw wedi meithrin y gallu i ddelio â'r argyfwng hwn neu argyfyngau tebyg yn y dyfodol.

Wedi hynny, fe wnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyflwyniad ar y Cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

73 CH4 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2021/2022 (CYF) –

Ar 9 Mehefin, roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w ystyried, gydag unrhyw sylwadau'n cael eu cyfeirio'n ôl i'r Cabinet i'w hystyried ymhellach. Esboniodd Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Gweithwyr i'r Pwyllgor fod hwn yn adroddiad chwe mis a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet a Chraffu am lefelau salwch y Cyngor a hefyd y cymorth yr oedd yn ei roi i'w weithwyr a'i reolwyr.

Dyma bwyntiau allweddol yr adroddiad:

- Nodwyd y cyfraddau absenoldeb yn yr adroddiad a ddangosodd gynnydd o 8.59 diwrnod a gollwyd fesul CALI (Ebrill 2020 i Fawrth 2021) i 11.35 diwrnod a gollwyd fesul CALI (Ebrill 2021 i Fawrth 2022). Pennwyd y ffigur targed blynyddol (Ebrill 2021 i Fawrth 2022) fel 9.20 diwrnod a gollwyd fesul CALI.
- Roedd y cyfraddau absenoldeb uchod, er yn weddol uchel, yn dal yn gymharol gadarnhaol yn sgil y materion COVID-19 parhaus, gyda'r ffigur targed heb ei newid ers y tair blynedd diwethaf oherwydd y Pandemig.
- Tynnodd y Rheolwr Gweithredol sylw at ysgolion o fewn y Fro (oedd yn cynnwys 50% o weithlu'r Cyngor), oedd yn golygu y gallai eu lefel absenoldeb effeithio'n sylweddol ar gyfraddau absenoldeb cyffredinol y Cyngor, fel y gellir gweld wrth edrych ar gyfraddau absenoldeb oherwydd y Pandemig.
- Straen (nad yw'n gysylltiedig â gwaith) oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldeb salwch o hyd ar 24.34%.
- Cymharwyd data absenoldeb salwch diweddar yn erbyn blynyddoedd blaenorol, yn enwedig yn erbyn 2019/20 sef y cyfnod diwethaf cyn i effeithiau COVID-19 gael eu teimlo.
- O ran absenoldebau hirdymor / byrdymor, roedd absenoldebau hirdymor tua 75% o'r holl absenoldeb salwch o gymharu â bron i 25%; fel arfer roedd y gyfradd gyfartalog ar gyfer yr absenoldebau hyn tua 70 / 30 % yn y drefn honno. Serch hynny roedd y ffigyrau presennol ar gyfer absenoldebau tymor hirach yn is na 2020/21 a oedd wedi bod tua 81% ac felly'n mynd yn ôl i'r cyfeiriad cywir.
- Cyfeiriodd y Rheolwr Gweithredol at y pum rheswm uchaf dros absenoldeb ar gyfer pob un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor (Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022), gan amlinellu rhai o faterion neu achosion unigryw'r rhain oherwydd natur y gwahanol gyfarwyddiaethau, fel oedran, natur eu gwaith, ac ati.
- Cyfeiriodd yr adroddiad hefyd at effaith COVID-19 ac esboniodd y Rheolwr Gweithredol y gwaith a wnaed i gefnogi staff oherwydd hyn, fel y symud i weithio 'hybrid' a gweithio gartref, yn ogystal ag edrych ar yr heriau ynghylch 'presenoliaeth' (h.y., lle'r oedd pobl sy'n gweithio gartref / yn hybrid wedi parhau i weithio er eu bod yn sâl gyda COVID-19 ac ati gan eu bod yn gweithio gartref a ddim yn teithio i'r gwaith neu yn y swyddfa gydag eraill) er mwyn

sicrhau nad oedd staff yn teimlo y dylent weithio (gartref) er eu bod yn sâl a'u bod yn cynnal cydbwysedd bywyd gwaith. Yn rhan o hyn, roedd y Cyngor yn cynnal arolwg lles staff er mwyn cael mwy o ddata ar sut roedd staff wedi bod yn gweithio, yn cynnwys 'presenoliaeth' a sut y gellir mynd i'r afael â hyn er mwyn gofalu am staff.

- Amlinellwyd y Rhaglen Cymorth Gweithwyr hefyd, sy'n cynnig gwasanaethau'n cynnwys cwnsela a rheoli dyledion a'r angen i adolygu hyn nawr, yn ogystal â hyrwyddo iechyd ymhlith staff, cynnig brechiadau fflw i weithwyr a'r gwaith a wnaed gan Dîm Iechyd Galwedigaethol y Cyngor.
- Yn olaf, ar elfennau rheoli perfformiad rheoli absenoldeb salwch, rhoddwyd cryn dipyn o ddata i reolwyr, yr Uwch Dîm Arwain, yn ogystal ag i'r Cabinet a Chraffu ac roedd gwaith yn cael ei wneud yn agos gydag undebau llafur a chydweithwyr unigol o ran rheoli absenoldebau, cael eu cymorth a chael staff yn ôl i'r gwaith mor gyflym ac mor rhesymol â phosib.
- Fel y codwyd gan Craffu o'r blaen, byddai Adnoddau Dynol (AD) yn ceisio darparu data cymharol ar absenoldeb salwch gydag Awdurdodau Lleol eraill Cymru yn y dyfodol agos; fodd bynnag, roedd rhybuddion gyda hyn o ran y gwahaniaethau cynhenid rhwng awdurdodau o'r fath, h.y. y ffordd y darperir gwasanaethau gyda rhai awdurdodau'n rhoi gwasanaethau allweddol ar gontractau allanol, tra bod y Fro wedi cadw llawer o'i gwasanaethau'n rhai 'mewnol' gan gynnwys gwasanaethau a oedd yn draddodiadol â chyfraddau salwch uwch oherwydd yr angen i fod yn yr awyr agored neu lefel uwch o waith corfforol neu feddyliol / emosiynol.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafodd y sylwadau a'r cwestiynau dilynol eu codi gan y Pwyllgor ac eraill:

- Dymunai'r Cadeirydd sôn am y cynnydd 35% yn absenoldeb salwch a gofyn a oedd unrhyw werthusiad o'r data a oedd yn dangos effeithiolrwydd y Rhaglen Cymorth Gweithwyr a'r mentrau i fynd i'r afael â phresenoliaeth. Esboniwyd y dylai'r arolwg staff helpu i roi data mwy 'mesuradwy' ar bresenoliaeth (h.y. nodi achosion lle'r oedd staff wedi gweithio tra'n sâl), gan roedd hyn yn seiliedig ar wybodaeth anecdotaidd yn unig ar hyn o bryd. O ran y Rhaglen Cymorth Gweithwyr, roedd cymysgedd o adborth cadarnhaol ac ymatebion lle mae staff wedi cael profiadau llai na chadarnhaol wrth gael cymorth. Yn ogystal, roedd mynediad at wasanaethau o'r fath wedi newid felly roedd yn bwysig adolygu'r gwasanaethau hyn a sicrhau gwell gwasanaethau a'i fod yn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Dîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor.
- Dywedodd y Cyngorydd Haines nad oedd y data salwch a roddwyd yn dangos canran y staff a oedd yn gweithio gartref ac yn sâl, a gofynnodd a fyddai modd rhoi'r data hwn mewn adroddiadau yn y dyfodol er mwyn gweld yr effaith ar gynhyrchiant, ac ati. Cyfeiriodd hefyd at y wybodaeth anecdotaidd a roddwyd ynghylch achosion o bresenoliaeth, a oedd yn teimlo nad oedd yn ddigonol a phwysleisiodd bwysigrwydd casglu data mewn ffordd mor drwyadl ac effeithiol â phosibl, gan nodi y gallai'r arolwg staff o bosibl roi data 'wedi'i gwyro' yn unig. Roedd yn bwysig i AD edrych ar fodel mwy 'safonol' o gasglu data, fel y gwelir mewn diwydiant, gyda'r awgrym y gallai cyrff allanol fel Prifysgol Caerdydd gynorthwyo'r Cyngor gyda gwella a safoni prosesau casglu data, ac ati.

- Gofynnodd y Cyngorydd Loveluck-Edwards am y canlynol:
 - Lefelau absenoldeb yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai ac a oedd unrhyw gydbertynas rhwng hynny a lefelau staffio, recriwtio a chadw. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai'n ceisio cynnwys lefelau staffio a recriwtio / cadw yn adroddiadau absenoldeb salwch y gwasanaethau hynny a gwasanaethau eraill yn y dyfodol, ac edrych ar strategaeth recriwtio a denu'r Cyngor, gan ei bod yn ymddangos bod mater ehangach yn ymwneud â swyddi gwag a recriwtio / cadw mewn llawer o wasanaethau, lle dim ond o fewn galwedigaethau mwy arbenigol fel gweithwyr cymdeithasol ac mewn gwasanaethau TGCh yr oedd hyn wedi'i weld o'r blaen. Felly byddai trafferthion recriwtio staff newydd yn rhoi mwy o bwysau ar staff presennol a allai effeithio ar absenoldeb salwch.
 - O ran y gwaith sy'n cael ei wneud ar y 'Caffi Menopos', pa gamau oedd yn cael eu cymryd i annog rheolwyr lleol i gael y mathau hynny o drafodaethau er mwyn i staff benywaidd allu neu deimlo'n hyderus i nodi'n agored berimenopos neu'r menopos am eu rheswm dros fod yn absennol. Roedd hyn yn rhywbeth y gellid edrych arno'n fanylach ac y gellid ei ymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol.
 - O ran straen nad yw'n gysylltiedig â gwaith, fyddai'n bosibl edrych ar y manylion yn fanylach a chael gwybod a oedd unrhyw faterion penodol, h.y. lefelau sylweddol o absenoldeb ymysg rhyw benodol, tra'n parchu preifatrwydd unigolion. Esboniwyd mai Llywodraeth Cymru sy'n llywio'r categorïau ar gyfer absenoldeb salwch. Maent dim ond yn edrych ar y lefel uwch o absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â 'straen', gyda'r Fro yn rhannu'r categori hwn ymhellach i straen sy'n gysylltiedig â gwaith a straen nad yw'n gysylltiedig â gwaith. Awgrymwyd y gellid edrych ar y data hwn yn fanylach, ond nid ar y lefel lle gellid adnabod unigolion neu dimau yn hawdd.
- Cyfeiriodd y Cyngorydd Wood at y tabl absenoldeb hirdymor yn yr adroddiad, a oedd yn ymddangos fel pe bai'n dangos cynnydd mawr mewn absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen, gyda chategorïau absenoldeb salwch eraill â llawer llai o gynnydd neu ddim cynnydd o gwbl. Gallai'r pwysau a achoswyd gan y pandemig, cynnydd mewn niferoedd staff, ac ati esbonio hyn ond roedd hyn yn dal i fod yn gynnydd sylweddol. Cadarnhawyd i'r Cyngorydd fod absenoldeb hirdymor yn cael ei fesur fel pedair wythnos o absenoldeb parhaus. Ychwanegodd fod angen edrych yn fanylach ar absenoldeb salwch hirdymor sy'n gysylltiedig â straen (ond gyda'r angen i barchu preifatrwydd unigolion, ac ati) er mwyn edrych ar syniadau posibl i helpu i leihau absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen, a oedd wedi dod yn fater salwch sylweddol i'r Cyngor. Ar ben hynny, dylai'r ystadegau ar absenoldebau hirdymor edrych ar y bobl hynny oedd yn sâl am fwy na phedair wythnos. Cytunodd y Rheolwr Gweithredol â sylwadau'r Cyngorydd a chyfeiriodd at y gwaith a wnaed gyda rheolwyr i helpu i reoli eu lefelau absenoldeb a'r data absenoldeb salwch manylach a rennir â'r gwahanol dimau rheoli a phwyllgorau iechyd a diogelwch i helpu i fynd i'r afael â materion o'r fath. O ran absenoldeb salwch mwy hirdymor, gellid darparu data wrth symud ymlaen, yn ôl cyfarwyddiaeth a chategorïau eraill, gan edrych ar gyfnodau 4, 8 a 12 wythnos.

- Ychwanegodd yr Is-gadeirydd ei bod yn ymddangos bod rhan helaeth o'r cynnydd mewn absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen yn gysylltiedig ag ysgolion; tynnodd sylw hefyd at ddau bwynt penodol o bryder a restrwyd yn yr adroddiad, sef cynnydd mawr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mewn straen sy'n gysylltiedig â gwaith o fewn Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai ac mewn straen sy'n gysylltiedig â gwaith ac nad yw'n gysylltiedig â gwaith yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnodd a fyddai modd cael adroddiad ychwanegol yn ymwneud â'r meysydd penodol hyn o gynnydd a phryder. Cytunodd y Rheolwr Gweithredol y byddai adrodd ychwanegol ynghylch absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen ar gyfer y gwasanaethau a nodwyd yn cael ei wneud a chyfeiriodd hefyd at y gwaith yr oedd y Cyngor wedi'i wneud i helpu i leddfu'r fath bwysau fel y taliadau ychwanegol, drwy Lywodraeth Cymru, i staff h.y. mewn gofal cymdeithasol.
- Siaradodd yr Arweinydd gerbron y Pwyllgor hefyd, gan ddweud bod hwn yn faes pwysig iawn iddi ac na ddylid anghofio mai pobl oedd y tu ôl i'r adroddiad a'r ystadegau, pobl oedd yn sâl ac oedd wedi gweithio'n ddiflino fel gweithwyr gofal cymdeithasol gyda materion Cyhyrsgerberbydol oherwydd yr angen i godi a symud pobl sy'n agored i niwed a phobl oeddrannus, neu staff sy'n gweithio yn yr adran sbwriel ac ailgylchu. Roedd yno hefyd yr agwedd iechyd meddwl a allai gael ei chynnwys gydag absenoldeb sy'n gysylltiedig â straen, mewn ffordd na fyddai'n cael ei chynnwys gydag anhwylderau eraill neu resymau eraill dros absenoldeb ac felly roedd angen lle bo modd edrych yn fanylach ar y rhesymau dros absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen, boed yn gysylltiedig gwaith neu'r cartref, ac ati, er mwyn cael data ansoddol a meintioli. Cyfeiriodd yr Arweinydd hefyd at y Rhaglen Cymorth Gweithwyr a allai gynnig cymorth i staff yr oedd eu cydbwysedd bywyd gwaith wedi'i effeithio ac a oedd yn dioddef straen yn y cartref neu'r gwaith.
- Roedd y Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am ychwanegu bod y gwaith helaeth a wnaed gan staff rheng flaen er mwyn cefnogi'r rheiny mwyaf agored i niwed a holl drigolion y Fro yn ystod y Pandemig wedi golygu mwy o straen a gorbryder a oedd wedi effeithio ar absenoldeb salwch. Roedd perygl i hyn waethygu erbyn hyn oherwydd pwysau costau byw. Byddai'r Cyngor yn parhau i gynnig cymorth i staff drwy ymyriadau meddygol a seiciatrig ac ymyriadau gan weithwyr proffesiynol eraill, yn ogystal â sesiynau cymorth cyfoed i gyfoed, lles, gwydnwch, ffitrwydd corfforol, iechyd meddwl, cymorth ariannol a sesiynau tebyg. Hefyd, wrth edrych ar adborth ac ystadegau staff drwy'r arolygon a gynhaliwyd, roedd y rhain yn gadarnhaol ar y cyfan o ran y rhaglenni a gynigir i weithwyr, pa mor fodlon oedden nhw gyda'u rôl, y cymorth a roddir iddynt gan eu rheolwr llinell a'r ymddiriedaeth a oedd ynddynt i wneud eu rôl. Roedd yn bwysig bod holl reolwyr y Cyngor yn parhau i roi'r negeseuon cefnogol hynny i staff. Byddai data manylach yn cael ei roi i'r Pwyllgor ar absenoldeb salwch, minws unrhyw ddata personol.
- Siaradodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau gerbron y Pwyllgor hefyd, gan fynd i'r afael â'r gwaith corfforol caled a wnaed gan staff yn ei bortffolio yn ystod cyfnod y Pandemig a'r effaith ddilynol ar absenoldeb, yn ogystal â digwyddiadau ym mywydau personol staff. Dywedodd yr Aelod Cabinet hefyd y byddai'n cadw llygad barcud ar unrhyw gynnydd mewn absenoldeb salwch o fewn ei gylch gwaith a'i drafod gyda'r Cyfarwyddwr perthnasol er mwyn mynd i'r afael â hyn a defnyddio'r Rhaglen Cymorth Gweithwyr.

Wedi hynny, fe wnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD barn ac argymhellion y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo, sef:

- Bydd adroddiad yn cael ei lunio ar gyfer y Cabinet ac ar gyfer y Pwyllgor ar y dadansoddiad o absenoldeb salwch gan staff sy'n gweithio gartref a'r rhai sy'n gweithio mewn amgylcheddau swyddfa a rheng flaen.
- Llunio adroddiad ar gyfer y Cabinet ac ar gyfer y Pwyllgor ar unrhyw gydbertynas bosibl rhwng y meysydd lle mae gan y Cyngor brinder sgiliau gyda materion recriwtio a chadw staff yn ogystal â lefelau sylweddol o absenoldeb salwch.
- Llunio adroddiad ar gyfer y Cabinet ac ar gyfer y Pwyllgor ar y cysylltiad rhwng absenoldeb salwch a perimenopos a menopos i staff benywaidd, yn ogystal ag edrych ar y modd o alluogi staff i ddyfynnu'r rhain fel rhesymau dros absenoldeb salwch, megis ar ffurflenni dychwelyd i'r gwaith.
- Mae adroddiad yn cael ei lunio ar gyfer y Cabinet ac i'r Pwyllgor edrych yn benodol ar yr achosion tymor hwy o absenoldeb salwch a nifer y bobl yr effeithir arnynt, wedi'u dadansoddi yn ôl sector, rheswm dros absenoldeb, ac ati.

Rheswm dros yr argymhelliad

I'r Cabinet ystyried sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar reoli absenoldeb salwch ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor a galluogi'r Pwyllgor i wneud argymhellion i'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

74 TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2021/22 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd gan Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wybod i'r Aelodau am gynnydd argymhellion y Pwyllgor Craffu yn y gorffennol ac Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2022/23:

- Orlhain Argymhellion Chwarter 4, mis Ionawr i fis Mawrth 2022 (Atodiad A);
- Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 (Atodiad B);
- Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith Flynyddol ar gyfer 2022/23 (Atodiad C).

Cyfeiriodd Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu at rai diwygiadau bychain yr oedd angen eu gwneud gan gyfeirio at yr argymhellion ar yr adroddiad ac ar Amserlen Arfaethedig y Flaenraglen Waith ar gyfer 2022/23:

- Dylai argymhelliad 2 gyfeirio at y 'Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol' ac nid y 'Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel' o ran Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 yn Atodiad B.

No.

- Yn Atodiad C (Amserlen Arfaethedig Blaenraglen Flynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2022/23), dylid symud yr adroddiad ar Prosiect Sero o fis Mehefin i fis Gorffennaf 2022 yn Amserlen y Rhaglen Waith.

Gofynnodd y Cynghorydd Haines am adroddiad ar gymorth ar-lein a roddir gan y Cyngor / Cyswllt Un Fro ac a ellid cynnwys hyn yn y Rhaglen Waith, a soniodd am yr heriau a oedd ganddo ef ac aelodau eraill o'r cyhoedd wrth geisio rhoi gwybod am broblemau fel ceudyllau ac wrth geisio datrys y problemau hynny. Esboniodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol fod gwella gwasanaethau digidol y Cyngor yn ymrwymiad allweddol yn y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ac y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor drwy adroddiad ar berfformiad yn y dyfodol agos. Gellid darparu sylwadau ychwanegol ar hyn yn rhan o adroddiadau o'r fath wrth symud ymlaen. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr hefyd at y system ar-lein newydd y byddai'r Cyngor yn ei mabwysiadu ar gyfer ei wasanaethau cwsmeriaid a fyddai'n gwella mynediad a defnyddioldeb. Byddai'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i hyn fynd yn ei flaen. Byddai Swyddog y Gwasanaethau Democraataidd a Chraffu hefyd yn rhannu gyda'r Cynghorydd Haines adroddiadau, diweddariadau, ac ati. ar gynhwysiant digidol a gwasanaethau ar-lein o hyn a gan Bwyllgorau Craffu eraill.

Wedi hynny, fe wnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) NODI Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 sydd wedi'i hatodi yn Atodiad B, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol 2022/23.
- (4) CYMERADWYO Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn unol â'r newidiadau canlynol:
 - Bod adroddiad Prosiect Sero yn cael ei symud o fis Mehefin i fis Gorffennaf 2022 yn Atodlen y Rhaglen Waith.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Alinio ag adran 7.6 o Brotoocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.
- (3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.